# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 1

TROSOLWG

### 1 Trosolwg

(1) Mae'r adran hon yn drosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.

(2) Mae Rhan 2—

(a) yn sefydlu Cymwysterau Cymru ac (yn Atodlen 1) yn gwneud darpariaeth ynghylch ei aelodaeth a'i drefniadau llywodraethu,

(b) yn nodi prif nodau Cymwysterau Cymru, ac

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru, wrth arfer ei swyddogaethau, weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol at ddiben cyflawni'r nodau hynny.

(3) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch cydnabod gan Gymwysterau Cymru gyrff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru.

(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymwysterau blaenoriaethol a chymeradwyo gan Gymwysterau Cymru gymwysterau i'w dyfarnu yng Nghymru. Mae—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru lunio rhestr o gymwysterau sydd i fod yn flaenoriaeth i Gymwysterau Cymru,

(b) yn galluogi Cymwysterau Cymru o dan amgylchiadau penodol i benderfynu y dylid cyfyngu ar nifer y ffurfiau ar y cymwysterau hynny a gymeradwyir ganddo (naill ai i un neu i fwy nag un),

(c) yn galluogi Cymwysterau Cymru i ymrwymo i drefniadau gyda chorff i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster i'w dyfarnu yng Nghymru, pan fo wedi gwneud penderfyniad fel y'i disgrifir ym mharagraff (b) mewn cysylltiad â'r cymhwyster o dan sylw, a

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 1. (See end of Document for details)*

(d) yn galluogi Cymwysterau Cymru i ystyried cymeradwyo cymhwyster i'w ddyfarnu yng Nghymru nad yw wedi ei gynnwys ar y rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff (a).

(5) Mae Rhan 5 yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddynodi cymhwyster at ddiben galluogi i gwrs sy'n arwain ato gael ei gyllido gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru, neu ei ddarparu gan neu ar ran ysgol a gynhelir yng Nghymru.

(6) Mae Rhan 6—

(a) yn darparu mai dim ond os yw Cymwysterau Cymru wedi cymeradwyo neu ddynodi'r ffurf ar y cymhwyster y mae cwrs addysg neu hyfforddiant yn arwain ati y caniateir i'r cwrs gael ei gyllido gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru, neu ei ddarparu gan neu ar ran ysgol a gynhelir yng Nghymru, a

(b) yn gwneud darpariaeth sy'n cyfyngu ar effaith yr amodau a osodir gan Ofqual, mewn cysylltiad â dyfarnu yng Nghymru ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei chymeradwyo gan Gymwysterau Cymru; ac sy'n cyfyngu ar effaith yr amodau cydnabod a osodir gan Gymwysterau Cymru fel nad ydynt yn gymwys mewn cysylltiad â dyfarnu cymwysterau y tu allan i Gymru.

(7) Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch camau y caiff Cymwysterau Cymru eu cymryd os yw'n ystyried bod corff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio ag amod y mae'r gydnabyddiaeth o'r corff hwnnw, neu'r gymeradwyaeth i gymhwyster a ddyfernir ganddo, yn ddarostyngedig iddo.

(8) Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau eraill Cymwysterau Cymru, gan gynnwys—

(a) y pŵer i ddarparu gwasanaeth ymgynghori a gwasanaethau eraill ar sail fasnachol,

(b) y ddyletswydd i lunio datganiad polisi,

(c) sut y mae Cymwysterau Cymru i ymdrin â chwynion,

(d) ffioedd y caniateir i Gymwysterau Cymru eu codi, ac

(e) y ddyletswydd i roi sylw i egwyddorion penodol wrth gyflawni gweithgareddau rheoleiddiol.

(9) Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaeth gyffredinol, gan gynnwys nodi mynegai o dermau wedi eu diffinio a ddefnyddir yn y Ddeddf.

(10) Yn Rhan 9, mae adran 56 yn nodi ystyr y term "cymhwyster" fel y'i defnyddir yn y Ddeddf.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(1)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 1.